
Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# TROSOLWG O GYDSYNIO YNNI ADNEWYDDADWY MOROL YN NYFROEDD CYMRU

## Prif gydsyniadau ar gyfer prosiect ynni llai na 50MW yn nyfroedd glannau Cymru (o fewn 12nm)

| Cydsyniad | Awdurdod Trwyddedu / Cydsynio | Awdurdod sy'n Awdurdodi Gwaith Morol (ar ôl y penderfyniad) | Awdurdod Gorfodi (Cymru'n unig) |
|---|---|---|---|
| Trwydded Forol o dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. | Cyfoeth Naturiol Cymru ar ran Gweinidogion Cymru (swyddogaeth ddirprwyedig). | Cyfoeth Naturiol Cymru. | Gweinidogion Cymru. |
| Adran 36 Cydsyniad Ynni o dan Ddeddf Trydan 1989, oni bai bod prosiect wedi'i gyfarwyddo o dan Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024. | Gweinidogion Cymru, yn dilyn argymhelliad gan Arolygydd Cynllunio. | Gweinidogion Cymru. | Y Goron (euogfarn ddiannod). |
| Adran 3 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 (o bosibl yn cynnwys trwydded forol dybiedig). | Gweinidogion Cymru yn dilyn argymhelliad gan Awdurdod Archwilio. | Gweinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y drwydded forol dybiedig. | Corff gorfodi Gorchymyn.<br><br>Gweinidogion Cymru ar gyfer trwydded forol dybiedig. |
| Gorchymyn Cydsyniad Seilwaith o dan Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 (o bosibl yn cynnwys trwydded forol dybiedig) drwy gyfarwyddyd o dan Reoliadau Cydsyniad Seilwaith (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2024 ar gyfer naill ai:<br>• Gwynt dros 35MW<br>• Arall dros 1MW.<br><br>Ar gyfer y ddau ni chaiff y capasiti cyffredinol fod yn fwy na 350MW. | Gweinidogion Cymru yn dilyn argymhelliad gan Awdurdod Archwilio (neu Awdurdod Archwilio os gwneir cyfarwyddyd o dan adran 55(4) o Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024. | Gweinidogion Cymru neu gorff dynodedig arall a Cyfoeth Naturiol Cymru os oes trwydded forol dybiedig. | Y Goron (euogfarn ddiannod neu ar euogfarn ar dditiad) neu bwy bynnag a bennwyd yn narpariaethau'r Gorchymyn).<br><br>Gweinidogion Cymru os oes trwydded forol dybiedig. |

## Prif gydsyniadau ar gyfer prosiect ynni rhwng 50MW – 350MW yn nyfroedd glannau Cymru (o fewn 12nm) – Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol[1] (o fewn 12nm)

| Cydsyniad | Awdurdod Trwyddedu / Cydsynio | Awdurdod sy'n Awdurdodi Gwaith Morol (ar ôl y penderfyniad) | Awdurdod Gorfodi (Cymru'n unig) |
|---|---|---|---|
| Gorchymyn Cydsyniad Seilwaith o dan Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 (o bosibl yn cynnwys Trwydded Forol dybiedig o dan adran 83 o'r Ddeddf honno. | Gweinidogion Cymru yn dilyn argymhelliad gan Awdurdod Archwilio (neu Awdurdod Archwilio os gwneir cyfarwyddyd o dan adran 55(4) o Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024. | Gweinidogion Cymru neu gorff dynodedig arall ar gyfer Gorchymyn Cydsyniad Seilwaith a Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y drwydded forol dybiedig. | Y Goron (euogfarn ddiannod neu ar euogfarn ar dditiad) neu bwy bynnag a bennwyd yn narpariaethau'r Gorchymyn). |
| Adran 36 Cydsyniad Ynni o dan Ddeddf Ynni 1989 os gwneir cyfarwyddyd o dan adran 24 o Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 ar gyfer prosiect trawsffiniol (Cymru a Lloegr). | Gweinidogion Cymru yn dilyn argymhelliad gan Arolygydd Cynllunio. | Gweinidogion Cymru. | Y Goron (euogfarn ddiannod). |
| Os nad yw'n dybiedig o dan Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 Trwydded Forol o dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. | Cyfoeth Naturiol Cymru ar ran Gweinidogion Cymru (swyddogaeth ddirprwyedig). | Cyfoeth Naturiol Cymru. | Gweinidogion Cymru. |

## Prif gydsyniadau ar gyfer prosiect ynni mwy na 350MW yn nyfroedd glannau Cymru (o fewn 12nm)

| Cydsyniad | Awdurdod Trwyddedu / Cydsynio | Awdurdod sy'n Awdurdodi Gwaith Morol (ar ôl y penderfyniad) | Awdurdod Gorfodi (Cymru'n unig) |
|---|---|---|---|
| Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Deddf Cynllunio 2008).<br><br>Ni all Gorchymyn Cydsyniad Datblygu dybio trwydded forol yn ardal y glannau. | Yr Ysgrifennydd Gwladol, yn dilyn argymhelliad gan yr Arolygydd Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol. | Yr Ysgrifennydd Gwladol, Awdurdod Cynllunio Lleol (pwy bynnag a bennwyd i gyflawni'r darpariaethau penodol yn y Gorchymyn). | Y Goron (euogfarn ddiannod neu ar euogfarn ar dditiad), neu bwy bynnag sydd wedi'i bennu yn narpariaethau'r Gorchymyn. |
| Trwydded Forol (Rhan 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009). | Cyfoeth Naturiol Cymru ar ran Gweinidogion Cymru (swyddogaeth ddirprwyedig). | Cyfoeth Naturiol Cymru. | Gweinidogion Cymru. |

## Prif gydsyniadau ar gyfer prosiect ynni mwy na 350MW yn nyfroedd môr mawr Cymru (y tu hwnt i 12nm)

| Cydsyniad | Awdurdod Trwyddedu / Cydsynio | Awdurdod sy'n Awdurdodi Gwaith Morol (ar ôl y penderfyniad) | Awdurdod Gorfodi (Cymru'n unig) |
|---|---|---|---|
| Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Deddf Cynllunio 2008).<br><br>Caiff Gorchymyn Cydsyniad Datblygu dybio trwydded forol os yw seilwaith y prosiect yn gyfangwbl o fewn rhanbarth môr mawr Cymru. | Yr Ysgrifennydd Gwladol, yn dilyn argymhelliad gan Arolygydd Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol. | Cyfoeth Naturiol Cymru (dyfroedd Cymru), os oes trwydded forol dybiedig a'r Ysgrifennydd Gwladol, Awdurdod Cynllunio Lleol (pwy bynnag a bennwyd i gyflawni'r darpariaethau penodol yn y Gorchymyn). | Y Goron (euogfarn ddiannod neu ar euogfarn ar dditiad), neu bwy bynnag a bennwyd yn narpariaethau'r Gorchymyn.<br><br>Gweinidogion Cymru os oes trwydded forol dybiedig. |
| Trwydded Forol (Rhan 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009) (oni bai ei bod yn dybiedig gan Orchymyn Cydsyniad Datblygu). | Cyfoeth Naturiol Cymru ar ran Gweinidogion Cymru (swyddogaeth ddirprwyedig). | Cyfoeth Naturiol Cymru. | Gweinidogion Cymru. |

[1] Gall Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol hefyd gael eu dynodi ar gyfer prosiectau ynni llai na 50MW gan Weinidogion Cymru o dan adran 22 o Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024. Byddai'r un prif gydsyniad yn gymwys yn yr enghraifft hon.

OGL © Hawlfraint y Goron 2026 WG54953